# Cenn@d

AWST 16 2023 | YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* | RHIF 129


## Porthi'r 5000 – a llawer iawn mwy




Do, daeth y tyrfaoedd yn eu miloedd i Foduan ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, a chafwyd gŵyl hynod lwyddiannus unwaith eto. Bu cystadlu brwd ac egnïol, a braf fu gweld teilyngdod yn y prif gystadlaethau. Cafwyd bwrlwm yn y ddau bafiliwn eleni, heb sôn am y pebyll o'u cwmpas.

Ynghanol hyn i gyd roedd yna dystiolaeth Gristnogol amlwg, gyda phabell enfawr yn cynrychioli'r prif enwadau yng Nghymru o dan nawdd Cytûn, a thua 40 o ddigwyddiadau crefyddol eu naws wedi eu cynnal yn ystod y cyfnod.

Bore Sul, 6 Awst, cafwyd oedfa fendithiol yn y prif bafiliwn, a hynny o dan arweiniad nifer o bobl y fro, gan gynnwys y Parchedig Anna Jane Evans, a draddododd y bregeth, ac Archesgob Andrew John, a'n croesawodd gan gyflwyno thema'r oedfa sef 'Pererindod'. Yn yr un modd cafwyd cymanfa o dan arweiniad Pat Jones gyda'r hwyr, â chanu gorfoleddus yn atseinio o'r pafiliwn.

Ar ganol maes y brifwyl, gerllaw'r prif bafiliwn, roedd pabell Cytûn, neu'n hytrach, 'Pabell yr Eglwysi'. Yno o fore tan nos roedd yna groeso i bawb, digon o de a choffi a phum mil o deisennau cri – pob un ohonynt wedi ei bwyta cyn nos Sadwrn! Cynhaliwyd oedfa yno bob bore, a diolch am gymorth gweinidogion ac arweinwyr bro'r eisteddfod i gynnal y gwasanaethau hynny.

Braf fu cael croesawu Cadfan Sant atom i gyflwyno sioe ar bedwar achlysur yn ystod yr wythnos. Diolch am ddawn arbennig Llion Williams wrth iddo ein cyflwyno i fywyd a gwaith Cadfan, mewn sioe hwyliog i blant a phawb o bob oed.

Partneriaeth yw'r babell bob tro. Rydym yn hynod ddiolchgar am yr holl help a gafwyd gan wirfoddolwyr, ac yn gwerthfawrogi cyfraniad arbennig y 150 o blith yr eglwysi a fu'n helpu drwy gario a symud offer a byrddau, gosod baneri ac addurno, gweini te a choffi (a Welsh *cakes*), glanhau'r stondin, arwain oedfaon, rhannu fferins, cynnal gwaith plant, trefnu sgyrsiau a lansiadau, gosod blodau, a llawer o bethau eraill. Heb os, roedd yna werthfawrogiad o'r cyfan a wnaed gan garedigion yr eglwysi'n darparu gofod croesawgar i bawb. Braf hefyd oedd cael cwmni Cymorth Cristnogol, Cymdeithas y Beibl, Cyngor yr Ysgolion Sul a Farming Crisis Network yn y babell gydol yr wythnos, yn cynnig blas ar genhadaeth ymarferol ar waith yn y gymuned.

Lansiwyd nifer o gyfrolau yn y babell yn ystod yr wythnos, gan gynnwys *Cysuro'r Claf* gan Eric Jones, *Ffenestri Gobaith* gan John Emyr, *Gwasanaethu'r Duw Byw* gan

(parhad ar y dudalen nesaf)


Dyfyniadau o lyfr Phil Wyman, *Love Big or Go Home* — Tudalen 3

Cyflwyno blodau am gyfraniad arbennig — Tudalen 5

Newyddion da — Tudalen 7

*Porthi'r 5000 – a llawer iawn mwy*
*(parhad o dudalen 1)*

Dafydd Andrew Jones a *Liliau Tân* gan Rhiannon Lloyd ac Arfon Jones. Byddwn yn rhoi mwy o sylw i'r cyfrolau hyn dros yr wythnosau nesaf.

Lansiwyd nifer o ymgyrchoedd hefyd, yn cynnwys dau gan Gymorth Cristnogol, sef apêl arbennig gan yr Annibynwyr a chan y Bedyddwyr, a chafwyd cyfle i ddiolch i Eglwys Bresbyteraidd Cymru am godi'r swm o £150,000 drwy ei hapêl 'Hadau Gobaith'. Rhoddwyd sylw hefyd i ymgyrch Deiseb Heddwch Nain / Mam-gu, a chafwyd gair gan Andrew Sully, pennaeth gweithredol Cymorth Cristnogol ar 'Golled ac Ennill'. Lansiwyd ffilm newydd *73* gan Gwyn Rhydderch yn sôn am fwrlwm ysbrydol haf 1973 yng Nghymru, ac mae modd gwylio'r ffilm ar Youtube erbyn hyn: https://youtu.be/eVEVPYGojao.

Galwodd nifer o gorau a phartïon heibio'r babell hefyd – rhai er mwyn rhoi perfformiad, Côr Cofnod o Gaernarfon a Chôr y Gadeirlan, Bangor, er enghraifft, a bu corau eraill yn defnyddio'r gofod i ymarfer cyn cystadlu.

Nos Fercher, 9 Awst, cafwyd darlith er cof am y Parch. Lloyd Jones yn Eglwys Clynnog ar y testun "Dringo'r ail fynydd: y dyfodol i eciwmeniaeth yng Nghymru?" Roedd hi'n briodol mai'r Parch. Siôn Brynach fel Prif Weithredwr newydd Cytûn a ffrind i Lloyd a gafodd fraint o draddodi'r ddarlith, ac fe gyflwynwyd crynodeb ohoni ganddo hefyd ym mhabell Cytûn y diwrnod canlynol.

Gobeithio bod y babell wedi bod yn gyfrwng i ni fel Cristnogion ac eglwysi rannu cariad Crist ag eraill, a'n bod wedi calonogi pawb a drodd i mewn atom.

*Aled Davies*




Llongyfarchiadau calonnog i un o olygyddion *Cenn@d*, sef Aled Davies, ar gael ei urddo i'r Orsedd ar fore Gwener yr Eisteddfod. Derbyniodd Aled y wisg werdd am ei gyfraniad i'w gymuned ac i'r byd crefyddol yng Nghymru mewn amryfal ffyrdd. Ac yntau'n gyfarwyddwr Cyhoeddiadau'r Gair a'r Cyngor Ysgolion Sul, mae'n gwbl addas y bydd yn cael ei adnabod yng Ngorsedd fel Aled Ysgol Sul. Enw gwych, Aled!


Llun gan Lona Evans

# Dyfyniadau o lyfr Phil Wyman, *Love Big or Go Home*

## Cyflwyniad

Bu Phil Wyman yn dod yn ôl ac ymlaen i Gymru am flynyddoedd lawer a daeth yn gyfaill da i nifer o bobl yma. Yn fwyaf diweddar, teimlodd alwad i ddod yma i weinidogaethu. Fel pob rhan arall o'i fywyd, roedd gweinidogaeth Phil yn 'wahanol'. Roedd ganddo'r ddawn i gyffwrdd bywydau pobl na fyddai byth yn dychmygu tywyllu drws capel mewn gwyliau gwahanol ym mhob cwr o'r byd.

Roedd ganddo hefyd bersbectif gwahanol, un oedd yn amlwg wedi ei ddylanwadu gan ei brofiadau bywyd a'i brofiadau eglwysig, oedd ddim bob amser yn rhai cadarnhaol. Mae ei gyfrol, a gyhoeddwyd tua'r un adeg â'i farwolaeth gynnar, annisgwyl, yn esbonio'r persbectif hwnnw.

Mae tueddiad ynom fel Cymru i fod yn fewnblyg ac yn amharod i wrando ar leisiau o ddiwylliannau eraill. Wel, roedd Phil wedi dod atom ni i weinidogaethu yng Nghymru ac i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, roedd yn deall mwy amdanom ni nag y byddem yn ei feddwl.


Dyma rai dyfyniadau o'i lyfr diweddar *Love Big or Go Home*. Rwy'n eu rhannu yma i roi cyfle i ni'r darllenwyr gael ein herio gan lais gwahanol. Yn amlwg, mae'r sylwadau'n dod o gyd-destun eglwysig gwahanol ond rwy'n credu bod cyfrifoldeb arnom i wrando ac i ofyn – tybed a yw Duw yn dweud rhywbeth wrthym yng ngeiriau'r dyn hoffus, cariadus, gwahanol hwn?

*Aled Jones*

## Gwasanaethu

Roedd yn beth cyffredin yng nghylchoedd Calvary Chapel yr 1980au i glywed pobl ifanc yn dweud nad oeddent yn 'teimlo arweiniad' i wneud rhai tasgau gweinidogaethol. Yn hyn o beth, roeddent yn golygu nad oeddent yn teimlo bod Ysbryd Duw yn eu hannog i gymryd rhan mewn tasgau penodol o fewn yr eglwys. Yn aml, roedd hyn mewn ymateb i dasgau fel glanhau, cynorthwyo gyda gweinidogaeth plant, neu gymryd rhan mewn estyn allan i efengylu. Cefais fy rhyfeddu bod ysbryd Duw yn cefnogi cymaint o bobl yn y pethau nad oeddent yn eu hoffi neu'n caniatáu iddynt osgoi pethau oedd yn ddiflas, yn anghyfforddus ac yn golygu ymdrech. Efallai fod yr 80au, a gafodd ei alw yn ddegawd trachwant, wedi gwthio'i werthoedd ar ein hefengylyddiaeth. Ac mae'n ymddangos y byddai'r degawd trachwant yn ymestyn am ddegawdau lawer.

Felly, tra oedd pobl eraill o fy oedran i'n disgwyl i Ysbryd Duw siarad gyda nhw neu'n rhoi arwydd iddynt, yn syml iawn, fe wnes i droi fy llaw at y tasgau oedd o 'mlaen i. Fe wnes i lanhau'r toiledau neu ddefnyddio'r *vacuum cleaner*. A dweud y gwir, ar fwy nag un achlysur, fe wnes i gyrraedd i lanhau a chanfod bod y person oedd i fod i agor y capel heb gyrraedd, ond roeddwn yn gwybod bod ffenest gefn oedd ddim yn cloi'n iawn. Felly, fe ddringais i fewn drwy ffenest y stafell molchi.






Mae'n debyg fod hynny'n golygu mod i wedi torri i mewn i'r capel i lanhau'r toiledau. Efallai mai fi yw'r unig berson i wneud hynny yn hanes yr eglwys, a byddwn yn dychmygu mai dyna'r math o leidr y byddai llawer o weinidogion yn dymuno'u gweld yn torri i mewn i'w capeli. Mae llawer o bobl yn gadael eu baw yn y capel ond mi wnes i dorri i mewn i'r capel i lanhau'r baw.

## Deall yr angen o'n cwmpas

'Roedd gweld tyrfaoedd o bobl yn ei gyffwrdd i'r byw, am eu bod fel defaid heb fugail, ar goll ac yn gwbl ddiymadferth.' (Mathew 9:36; beibl.net)

Mae pobl ym mhobman yn chwilio. Mae rhai'n chwilio am ystyr. Mae rhai'n chwilio am ryw gyflawniad drwy lwyddiant neu enwogrwydd. Mae rhai'n chwilio am *panacea* hapusrwydd. Mae rhai'n chwilio amdanynt eu hunain fel petasent wedi bod ar goll ac wedi eu gwahanu oddi wrth eu meddyliau, eu calonnau a'u cyrff. Pan ydym yn edrych dros dirwedd profiad cymdeithas, mae'n ymddangos fel ymchwydd sydd bron yn wyllt, ac mae pobl sy'n cymryd mantais o'r gwylltineb hwnnw drwy gynnig atebion ar gyfer bron pob dim y gallech fod yn chwilio amdano.

Roedd Iesu'n medru darllen calon ei amser ef. Fe edrychodd ar y dorf ac adnabod ymrafael o fewn gwead cymdeithasol diwylliant Hebreig y ganrif gyntaf. Roedd pobl yr adeg honno fel pobl nawr. Doedd ganddynt ddim cyfeiriad. Fe glywodd Iesu eu calonnau di-fugail yn brefu pan edrychodd ar draws y trefi a'r pentrefi.

Mae athronwyr, seicolegwyr a diwinyddion wedi adnabod y chwilio hwn, ac wedi ceisio'i ddiffinio – gan gael eu gyrru'n aml gan yr un awydd am ateb â'r gweddill ohonom. Disgrifiodd Awstin Sant o Hippo ffyrdd troellog y galon ddynol: 'Fe'n gwnest ni ar dy gyfer dy hun, O Arglwydd, ac ni all ein calonnau orffwys nes iddynt orffwys ynot Ti.'

## Ymestyn ein cylch o gyfeillion

Yn ôl Iesu, does dim byd yn arbennig am wneud ffrindiau gyda phobl sy'n debyg i chi. Nid yw gofalu am deulu yn rhywbeth sydd y tu hwnt i'r disgwyl, a does dim byd arbennig o gwbl am fod yn dda wrth ffrindiau neu bobl sy'n edrych ac yn ymddwyn yn debyg i ni. Dyma ddisgwyliadau syml bywyd bob dydd. Mae Iesu'n siarad yn syml am hyn ac yn dweud, 'Pam dylech chi gael gwobr am garu'r bobl hynny sy'n eich caru chi? Onid ydy hyd yn oed y rhai sy'n casglu trethi i Rufain yn gwneud cymaint â hynny?' (Mathew 5:46; beibl.net)

Y broblem gyda chamu allan o'r fan lle rydym yn gyfforddus yw ein bod yn dechrau dod wyneb yn wyneb â'n hofn o'r hyn nad ydym yn ei wybod. Mae lletygarwch Cristnogol a chariad yn ein gwthio rywfaint yn agosach at dir rydym yn ei ystyried yn beryglus. Mae'n herio ein hofn drwy ofyn i ni dreulio amser mewn llefydd nad ydym yn eu hadnabod ymysg pobl nad ydym yn eu hadnabod.

## Caru eraill

Ers blynyddoedd, rwyf wedi clywed pobl yn dweud o'r pulpud y medrwch garu rhywun heb ei hoffi. Y tro cyntaf i mi glywed hyn yn cael ei ddweud, roeddwn yn meddwl ei fod yn wrthun. Yn fy meddwl i, mae hoffi pobl yn gam cyntaf tuag at eu caru.


Mae gan bron pob un ohonom grwpiau ac is-ddiwylliannau yr ydym yn amheus ohonynt neu rydym yn ddilornus ohonynt i raddau. Mae fy rhagfarn bersonol i'n fy arwain i beidio ag ymddiried mewn pobl sydd wedi treulio'u bywydau yng nghyd-destun arweinyddiaeth Gristnogol broffesiynol. Ydw, rwy'n deall bod rhagrith dweud hynny'n sefyll allan fel ci mewn sioe gathod, achos rwyf wedi bod yn weinidog am dros ddeugain mlynedd. Efallai mai dyna'n union pam rwy'n teimlo fel hyn. Rwyf wedi gweld ochr dywyll crefydd, hyd yn oed yng nghanol pethau gwych sydd wedi digwydd mewn cyd-destunau crefyddol. Rwyf wedi bod yn destun cyhuddiadau twyllodrus ac arweinyddion enwadol drwg yn cuddio'r tu ôl i benderfyniadau gwael o swyddfa fawr.

O ganlyniad, rwy'n hynod o sensitif i anonestrwydd a dylanwadu'n amhriodol. Mae hyn yn beth da, ond mae'n gallu troi'n beth drwg yn rhy fuan. Weithiau, rwy'n dal fy agweddau drwg innau cyn iddynt fy nal a

(parhad ar y dudalen nesaf)

### Dyfyniadau o lyfr Phil Wyman, *Love Big or Go Home*
*(parhad o dudalen 3)*





throi'n ymddygiad drwg sy'n cael ei gymell mewn ymateb. Ar adegau eraill, rwy'n sicr fy mod yn gweld pethau sydd ddim yna ac wedyn yn ymateb yn amhriodol.

### Caru a thystiolaethu

Pan fyddwn yn caru'n afradlon, mae pobl yn cael eu denu atom ac mae sgyrsiau am ysbrydolrwydd yn digwydd yn naturiol. Dywedodd yr Apostol Pedr wrthym: 'Byddwch barod bob amser i roi ateb i bwy bynnag sy'n gofyn i chi esbonio beth ydy'r gobaith sydd gynnoch chi' (1 Pedr 3:15; beibl.net). Ond nid oes gan y rhan fwyaf ohonom gyfeillion sydd am holi pam rydym mor obeithiol. Nid oes gan bobl rydym yn eu hadnabod sydd ddim yn Gristnogion unrhyw ddiddordeb mewn ysbrydolrwydd, ond mae hyn yn newid pan fyddwn yn cynnig cariad diamod ac yn modelu cyfeillgarwch sy'n para.

Mae diddordeb go iawn yn datblygu pan fyddwn yn treulio amser gyda'r bobl y mae eraill yn eu hosgoi. Mae byw'r bywyd Cristnogol anturus hwn yn codi cwestiynau. Pan ydych yn *weirdo* cariadus, mae pobl am wybod beth sydd yn eich gyrru. Fe ddaw ein bywydau'n llyfrau stori sydd o ddiddordeb mawr pan fyddwn yn cerdded ar ffin yr hyn na ellir ei feddwl. Pan fyddwn yn treulio amser gyda phobl y mae eraill prin yn medru eu dioddef, rydym yn mynd i lefydd na all eraill ddim ond darllen amdanynt. Pan fyddwn yn ymestyn ein hunain mewn ffyrdd na all pobl eraill eu dychmygu, rydym yn dod yn Llyfr Actau'r Apostolion wedi ei ysgrifennu ar gyfer pobl heddiw, a byddant yn awyddus i wrando ar ein straeon.

### Ffydd fel teulu

Nid yw'r ffactorau yr ydym yn eu beio am y chwalfa mewn perthnasau teuluol yn ddim byd newydd. Efallai eu bod yn cael eu hamlygu mewn ffyrdd gwahanol, a hyd yn oed yn fwy creadigol nag yn y cenedlaethau a fu, ond yr un peth ydynt yn eu hanfod. Mewn dinasoedd ar draws y byd, mae cartéls cyffuriau a gangiau wedi llenwi'r gwagle oedd i fod ar gyfer mamau a thadau. Mae grwpiau crefyddol eithafol wedi cynnig ystyr bodolaeth sydd yn fwy na'u bywydau eu hunain i ieuenctid y mae'n hawdd creu argraff arnynt.

Oes, mae yna grwpiau a mudiadau sydd wedi dod yn ffynonellau positif ar gyfer y rhai sy'n unig ac wedi eu cam-drin. Dyma lle mae addysg, pobl yn ymgasglu o gwmpas diddordebau, galwedigaethau, grwpiau cefnogi ar gyfer rhai gyda phroblemau dibyniaeth a'r myrdd o wyliau yn cynnig profiadau teuluol gwahanol i eneidiau crwydrol.

Mae gan yr eglwys, sef yr hyn rydym ei alw'n 'deulu ffydd', y potensial grymus i ddod â gobaith i'r unig mewn cymdeithas sy'n ynysu. Yn ogystal â chyfeillgarwch sy'n teimlo'n agos fel teulu, rydym yn ychwanegu cymdeithas Duw, er na ellir ei weld, sydd yn caru.

Yn y cyfnod allweddol yr ydym yn byw ynddo, mae'n rhaid i ni holi ein hunain: sut ydym yn creu'r gwir ymdeimlad o deulu ymysg y ffyddloniaid? Ac eto, wrth ofyn y cwestiwn, mae'n rhaid i ni osgoi dod yn 'deulu' yn niffiniad y Corleones. Rydym i fod yn griw o frodyr a chwiorydd gofalus, cefnogol a moesegol. Nid mob, gang y dylem fod ac ni ddylem chwaith ddisgyn i rywbeth sy'n debyg i'r diffiniad modern o 'gwlt'.

### Tasg amhosib yr Efengyl

Y tu allan i gylchoedd yr eglwys, mae pobl yn cael eu cyflogi i drefnu prosiectau a gwyliau cymunedol, neu i greu calendrau digwyddiadau ar gyfer ysgolion neu sefydliadau gofal oedolion. Mewn sefydliadau digon mawr, gellir disgwyl i bob un o'r rhain fod yn swyddi llawnamser. Mewn prifysgolion, disgwylir i ddarlithwyr fod yn arbenigwyr ar eu pynciau a disgwylir iddynt hefyd ddarparu profiad dysgu gyda'r gorau i'w myfyrwyr. Mae addysgu a'r gwaith cysylltiol sydd ynghlwm ag ef yn waith llawnamser ac mae'r astudio sydd ei angen er mwyn bod yn gyfredol yn gyfran sylweddol o'r gwaith hwnnw. Mae gweinidog cyffredin yn gorfod gwneud y tasgau hynny i gyd fel rhan o'i swydd-ddisgrifiad wythnosol. A disgwylir iddo fod yn arbenigwr ar bopeth, yn ysgrythurol ac yn grefyddol.

Ar ben y rhestr hon o weithgareddau, medrwn ychwanegu gwasanaethu'r gymuned: bwydo'r newynog, cynorthwyo'r tlawd, cynghori'r toredig ac ymweld â'r unig. Mae'r rhain i gyd yn bethau y mae person cyffredin yn disgwyl i weinidog eglwys cyffredin eu cyflawni. Ond mewn sefydliad nid er elw, sydd yn ymateb i ychydig o anghenion yn unig, mae'r tasgau hyn i gyd yn cael eu cyflawni gan bobl wahanol. Mae sefydliad arall yn bwydo'r newynog dros ginio ac efallai'n cynnig gwely i'r digartref. Mae un arall yn darparu mentoriaid ar gyfer plant sydd heb rieni gartref. Mae'r rhestr o raglenni penodol ar gyfer gofal cymdeithasol penodol yn ddiddiwedd. Ac eto, mae eglwysi'n cael eu cyhuddo'n aml nad ydynt yn gwneud digon. Er gwaetha'r ffaith mai sefydliadau bach lleol ydynt, mae disgwyl i eglwysi wneud y pethau hyn i gyd ar gyfer eu cymuned leol ac wedyn edrych ymhellach i'r byd yn ehangach.

Sawl tro dros y blynyddoedd mae pobl wedi gofyn i mi beth roeddwn yn ei wneud yn ystod yr wythnos. Rywsut, roedd pobl yn credu mai'r unig beth yr oedd gweinidogion yn ei wneud oedd cyfarfod ar fore Sul. Ond, fel y gall sawl gweinidog gadarnhau, does dim byd sydd ymhellach o'r gwir."

### Gwaith amhosib yr Eglwys

Pan ydym yn ystyried yr holl bethau sy'n gorfod disgyn i'w lle i greu teulu o ffydd fywiol, rydym yn darganfod bod y gwaith y mae creu cymuned yn ei olygu yn ddigon i'n dychryn. Mae gan bawb, yn cynnwys Cristnogion, ddisgwyliadau amhosib am sut y dylai eglwys weithio. Pan mae'n dod i'r pen, yn aml, mae llawer mwy o bobl yn barod i gwyno a llai yn barod i helpu.

Mae creu cymuned fywiol yn dasg anferthol, ond er mor anodd ydyw rydym i gyd yn cydnabod bod yn rhaid iddo ddigwydd. Dyna pam mae eglwysi'n cael eu mesur yn erbyn safonau amhosib, a hynny gan feirniaid a chefnogwyr.

Mewn paradocs llwyr, hyd yn oed ar ôl ystyried y tasgau hyn na ellir eu cyflawni, ni allwn ostwng ein disgwyliadau, gan mai dyma ddisgwyliadau'r efengyl ei hun. Mae'r efengyl, yn ei hanfod, yn golygu cyflawni'r hyn sy'n amhosib. Mae'r angen dwfn am gymuned gadarn sy'n iacháu mewn byd toredig yn galw am ddisgwyliadau delfrydol. Fel Cristnogion, dylem fod yn ddelfrydwyr clasurol sy'n gobeithio, yn breuddwydio ac yn gweithio am yr amhosib. Ond mae hyn yn golygu bod creu gwir gymuned yn dasg sy'n perthyn i bob person – nid dim ond i weinidogion sy'n cael eu gorlwytho.

Ydy, mae'n dasg anferthol ond dyma fy nhasg innau a dyma dy dasg dithau. Ac efallai – efallai, os yw pawb yn cymryd rhan, fydd hi ddim mor amhosib wedi'r cyfan.

### Her a gwahoddiad

Dylai ein deiet, ein defnydd o'n tafodau, yr oriau rydym yn cysgu, sut ydym yn defnyddio'n harian, lle rydym yn teithio, lle rydym yn byw …. oll fod yn perthyn i Dduw gymaint â ni ein hunain. Neu, fe ddyliwn ddweud, dylent berthyn i Dduw os ydym ni'n perthyn i Dduw ac os ydym wedi ildio'n bywydau iddo.

Ein hanallu i ildio'n consýrn am arian i ddwylo Duw ydy'r un peth sy'n gorthrymu pob rhan arall o'n bywydau. Dyma orthrwm systematig ein ffrind sy'n ein bradychu – yr unben Trindodaidd – Fi, Fy Hun a Fy Hunan. Mae'r unben hwn wedi rheoli bywydau pob person yn systematig ac mae'n ein gyrru ni i gyd i fyw'n hunan-ganolog. O ganlyniad, mae mynd go iawn am Dduw yn gostus. Mae'n costio popeth fu gennym erioed a phopeth a fydd gennym byth. Ond, os ydym ni'n mynd o ddifri am Dduw, fe fydd Ef yn mynd o ddifri amdanom ni.

# Cyflwyno blodau am gyfraniad arbennig

Cafodd Mrs Janet Evans syrpréis arbennig gan iddi gael ei henwebu i dderbyn rhodd unigryw o flodau ar raglen deledu *Y 'Sgubor Flodau* yn ddiweddar, a hynny i ddiolch iddi am ei gwaith diflino gydag ieuenctid yr ardal ers dros ddeugain mlynedd.





Lluniau: Nia Davies

Mae Janet nid yn unig yn athrawes weithgar yn yr Ysgol Sul yng Nghapel Noddfa, Llambed, yn trefnu oedfaon i'r ifanc, yn ddiacones ac yn organyddes ond mae hefyd yn parhau i arwain Aelwyd yr Urdd a threfnu gweithgareddau amrywiol i'r aelodau. Yn ogystal, mae'n aelod gwerthfawr o nifer o fudiadau yn yr ardal ac yn canu gyda chôr lleol, sef Bytholwyrdd.

Llongyfarchiadau mawr, Janet, a diolch o galon am eich cyfraniad gwerthfawr i ieuenctid ardal Llambed ac i'r gymuned gyfan dros y blynyddoedd.

*Llinos Jones*

# Gwerth Cymdeithasu

Bellach, gyda'r cyfnod Covid yn dirwyn i ben, mae yna bwyslais mawr yn cael ei roi yn y wasg ar werth cymdeithasu â'n gilydd, ym mha ffordd bynnag.

Erbyn hyn, mae tystiolaeth gadarn ar gael yn dangos cymaint o ddrwg sydd wedi dod i ran pawb, boed yn blant neu'n oedolion, wrth orfod cilio o gymdeithas.

Braint felly oedd cael dal i gymdeithasu ar Zoom. Roedd y dechnoleg ar gael i fod yn rhan o gymaint o gyfarfodydd. Ar sawl achlysur roedd bron yn ormod, ac fel petai'r 'sgrin' yn bygwth cymryd ein bywydau drosodd. Serch hynny, da o beth oedd cael gweld a chyfarch ein gilydd, a chael bod yn rhan o'r gymdeithas ar Zoom.

Ar brynhawn ddydd Llun ers y cyfnod clo, mae nifer fechan ohonom yn dal i gyfarfod fel rhan o Gymdeithas Eglwys Sutton, Llundain, ar Zoom. I'r rhai ohonom sydd wedi croesi'r bont ac yn byw yng Nghymru ers peth amser, ac yn y gorffennol wedi bod aelodau yn Sutton am flynyddoedd lawer, mae'n fraint o'r mwyaf cael uno yn y cyfarfod. I'r ffyddlon rai sydd yn aelodau a'r rhai sydd â chysylltiad agos â Sutton, mae'r cyfarfod yr un mor bwysig.

Beth yw'r gwerthoedd yr ydym yn eu derbyn felly wrth gymdeithasu â'n gilydd? Gwelir isod rai o'r gwerthoedd; mae llawer mwy wrth gwrs:

1. Dod i **adnabod** ein gilydd
2. Dysgu **gwrando** ar ein gilydd
3. Rydym yn cael amser i **rannu** ein gofidiau neu unrhyw lawenydd sydd wedi dod i'n rhan, boed yn y gorffennol neu'r presennol
4. Rydym yn **dysgu** drwy rannu am ein gwahanol brofiadau mewn bywyd
5. Yn sicr, rydym yn **cynnal** ein gilydd drwy gymdeithasu â'n gilydd

Mae trefn ar y cyfarfod! Rhaid bod, a ninnau'n Bresbyteriaid bob un.

Beth felly yw'r drefn sydd yn cynnig y gwerthoedd uchod?

Mae pob un sydd yn dymuno hynny yn cael cadeirio'r cyfarfod o dro i dro. Y gadair sydd yn dewis y pwnc i'w drafod. Drwy garedigrwydd Gwen Wildman, rydym yn cael yr wybodaeth ar e-bost a WhatsApp fel bod amser gennym i baratoi ymlaen llaw.

Y gadair sydd yn dewis y darlleniad ac yn gweddïo, cyn inni symud ymlaen i drafod y pwnc. Mae pob unigolyn yn cael y cyfle i fynegi ei farn. Wedi'r trafod, mae cyfle inni rannu unrhyw beth â'n gilydd. Mae gwybodaeth am aelodau a'u teuluoedd sydd yn wael neu sydd mewn profedigaeth yn cael ei rannu. Nid bod pwysau ar neb i rannu dim, oni bai eu bod yn gyfforddus i wneud hynny.

Mae'r pynciau sydd wedi'u trafod yn arbennig o amrywiol, yn gyfoes, ac ar adegau yn eitha heriol. Serch hynny, mae llawer o hwyl a sbort i'w gael. Mae ambell aelod wedi paratoi'n fanwl, a diolch iddynt am wneud. Nid cystadleuaeth mo'r cyfarfod mewn unrhyw ffordd. Amser i fod yn agos gyda'n gilydd fel Cristnogion a chymdeithasu â'n gilydd yw'r bwriad.

O'm rhan i, mae fy niolch yn fawr i'r Parch. Richard Brunt, i Joanna Thomas-Wright am drefnu'r Zoom, i swyddogion ac aelodau Sutton am y fraint o gael ymuno pob prynhawn ddydd Llun gyda fy hen gyfeillion. Diolch i bawb sydd yn ei gwneud yn bosibl inni gyfarfod.

Plis, peidiwch â gofyn imi wneud dim ar brynhawn ddydd Llun o ddau o'r gloch tan dri! Diolch.

*Gwen Holt*

# ADNABOD

## Cymeriadau'r Hen Destament

## ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

### 37 Trefnu priodas (Rhan 1)

**Darllen: Genesis 24:1–9**

**(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 160)**

Wrth edrych ar y bennod hon yn hanes Abraham, peidiwch ag anwybyddu'r adnod gyntaf: 'yr oedd yr ARGLWYDD wedi ei fendithio ef ym mhob dim'. Yn unol â'i addewid wrth alw Abraham, ac yntau bellach mewn gwth o oedran ac er troeon yr yrfa, ym mhob peth mae wedi byw o dan y fendith. Nid nad yw pobl yr Arglwydd yn cwestiynu hyn o bryd i'w gilydd. Meddyliwch am Asaff yn Salm 77: 'Yn nydd fy nghyfyngder ceisiais yr Arglwydd, ac yn y nos estyn fy nwylo'n ddiflino; nid oedd cysuro ar fy enaid. Pan feddyliaf am Dduw, yr wyf yn cwyno; pan fyfyriaf, fe balla f'ysbryd.' Ond buan y mae yntau yn cofio, yn cydnabod nad yw 'deheulaw'r Goruchaf wedi pallu', ac yn hyn, yn arddangos amheuon. Ond mae'n gwybod hefyd mai yn y cofio fod yr 'Arglwydd wedi ei fendithio ym mhob dim' y mae ateb amheuon.

O ran sylwedd y bennod, dyhead Abraham yw gweld ei fab Isaac yn priodi, a hwnnw bellach yn ei bedwardegau. Mae consýrn tad yn dod i'r golwg, fel mae angen Isaac yn ei alar yn amlwg, ond mae cyfrifoldeb cyfamodol hefyd yn ganolog yma. Nid amau'r Duw sydd wedi addo bendithio'i had a gallu Duw i sicrhau hynny, bid a fo, sydd yn y bennod, ond yn hytrach weithgarwch ffydd. Mae'r bennod drwyddi draw yn tystio i'r Duw sy'n sofran mewn rhagluniaeth, ond fe welir hefyd ein cyfrifoldeb ninnau i ddefnyddio moddion arferol wrth geisio sicrhau bwriadau Duw yn ein bywydau, fel ym mywyd y teulu. Peth rhyfedd iawn fyddai i rieni ymddiried y bydd Duw yn dod â'u plant i adnabod Iesu, a ninnau'n gwneud dim i ddefnyddio'r moddion y mae Duw wedi'u rhoi inni. Nid amau penarglwyddiaeth Duw yw hynny, ond ymarfer ein ffydd o ddydd i ddydd.

Mae dymuniad Abraham yn benodol yn y gwaith yma – nid darganfod gwraig ond darganfod gwraig benodol gan ofyn i'w was addunedu: 'na chymeri wraig i'm mab o ferched y Canaaneaid yr wyf yn byw yn eu plith, ond yr ei i'm gwlad ac at fy nhylwyth, i gymryd gwraig i'm mab Isaac' (adn. 3–4). Tebyg fod y cais yn swnio'n chwithig iawn i bobl sydd wedi eu magu â'r syniad mai dim ond cariad sy'n bwysig. Ond yn yr Hen Destament, fel ag yn y newydd, sylweddolir beth yw effaith perthynas anghymarus. Yn ddiweddarach yn hanes Isaac a Rebeca fe gawn gyfeiriad at y loes achoswyd iddynt pan briododd Esau ferched o blith yr Hethiaid, a hynny'n fwriadol i darfu ar ei rieni. Yn Genesis 27:46 cawn Rebeca yn dweud wrth Isaac: "Yr wyf wedi blino byw o achos merched yr Hethiaid. Os prioda Jacob wraig o blith merched yr Hethiaid fel un o'r rhain, sef un o ferched y wlad, i beth y byddaf fyw?"

Yn ddiweddarach cawn olwg ar sail y consýrn yn Deuteronomium 7, 'Paid â gwneud cytundeb priodas â hwy trwy roi dy ferched i'w meibion a chymryd eu merched yn wragedd i'th feibion, oherwydd fe wnânt i'th blant droi oddi wrthyf ac addoli duwiau eraill' (adn. 3–4). Mae Paul yn dadlau yn 2 Corinthiaid 6 fod ein dealltwriaeth o'n corff fel 'teml y Duw byw' yn peri na ddylem 'ymgysylltu'n amhriodol ag anghredinwyr' oherwydd 'Pa gytundeb sydd rhwng teml Duw ac eilunod?' (adn. 14, 16) Wrth siarad am briodas yn 1 Corinthiaid 7 mae'n pwysleisio hawl gwraig 'i briodi pwy bynnag a fyn, dim ond iddi wneud hynny yn yr Arglwydd' (adn. 39).

Rhywbeth arall sy'n hawdd ei golli yn y bennod yw gorchymyn Abraham i beidio caniatáu i Isaac adael y wlad yma yr oedd yr Arglwydd wedi ei haddo iddo. Rhaid fod hyn yn arwyddocaol oherwydd ceir cyfeiriad at y gorchymyn pan mae'r gwas yn holi a fyddai'n briodol caniatáu i Isaac i fynd gydag ef i sicrhau llwyddiant, ac yn ei ailadrodd wrth sicrhau'r gwas y bydd Duw yn anfon angel i'w arwain (gw. adn. 6,8). Er ei bod yn anodd dirnad o'r testun beth oedd gofid Abraham yn y mater hwn, eto, mae'n amlwg fod y rhai sy'n awyddus i feithrin duwioldeb ac ymddiriedaeth yn Nuw a'i addewidion yn awyddus hefyd i sicrhau, hyd y bo modd, na fyddant yn gosod temtasiwn diangen ar eu ffordd. I ddychwelyd eto at Hebreaid 11, 'Ac yn wir, pe buasent wedi dal i feddwl am y wlad yr oeddent wedi mynd allan ohoni, buasent wedi cael cyfle i ddychwelyd iddi' (adn. 15).

I ddiweddu, dyma'r geiriau olaf sy'n cael eu cofnodi o enau Abraham, ac yn gwbl wahanol i'r geiriau cyntaf y clywn ganddo. Mae'r geiriau cyntaf yn mhennod 15, geiriau sy'n cwestiynu addewid Duw, yr addewid am fab a'r addewid am wlad: '"O Arglwydd DDUW, beth a roddi i mi, oherwydd rwy'n para'n ddi-blant"… "Edrych, nid wyt wedi rhoi epil i mi; a chaethwas o'm tŷ yw f'etifedd" … "O Arglwydd DDUW, sut y caf wybod yr etifeddaf hi?"' (15: 2–3,8) Bellach, ei eiriau olaf yw geiriau ffydd, 'Yr ARGLWYDD, Duw'r nefoedd, yr un a'm cymerodd o dŷ fy nhad ac o wlad fy ngeni, ac a lefarodd a thyngu wrthyf, a dweud, "Rhof y wlad hon i'th ddisgynyddion", bydd ef yn anfon ei angel o'th flaen, ac fe gymeri wraig i'm mab oddi yno' (adn. 7).

1. Ym mha ffyrdd y byddwch yn sicrhau eich bod yn gweld yr Arglwydd yn eich bendithio 'ym mhob dim' yn eich profiadau amrywiol?
2. Yng nghyfieithiad Ben Davies o emyn Norman Macleod cawn y geiriau, 'cred yn Nuw a gwna dy waith'. Sut mae gwneud y defnydd gorau o'r moddion sydd yn yr eglwys i gredu a gweithredu?
3. Yn ei waeledd olaf mae Thomas Charles yn ysgrifennu'n aml at ei ffrindiau am awydd i ollwng gafael yn y byd gan fod harddwch y nefoedd mor agos. Beth fyddech chi'n ddymuno'i ddweud olaf?

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 20 Awst, am 7:30yb a 16:30yp**
Trystan Lewis yn cyflwyno detholiad o emynau o gymanfa Bethesda, yr Wyddgrug

**Sul, 20 Awst, am 12yp**
Oedfa sgwrs Fwdistaidd, gyda John Roberts yng nghwmni Anantamani a Prajnavaca

# Newyddion da



Fe gyhoeddir yr Efengyl hon am y deyrnas drwy'r byd i gyd fel tystiolaeth i'r holl genhedloedd, ac yna y daw y diwedd.
**Mathew 24:14**

Llun: NASA

Bwriad y myfyrdod hwn yw deall beth sydd gan yr apostol Paul i'w ddweud am yr Efengyl. Mae pawb sy'n gyfarwydd â chynnwys y Testament Newydd yn gwybod mai bwriad pob awdur sydd wedi cyfrannu iddo yw rhannu gwybodaeth am yr hyn a elwir yn Efengyl. Dywedir wrthym mai'r Efengyl yn ôl Marc oedd y llyfr cyntaf i gael ei ysgrifennu am Iesu, a dyma sut mae'r awdur hwnnw'n cyflwyno'r hanes:

> Dechrau Efengyl Iesu Grist, Mab Duw. (BCN)
>
> Mae'r newyddion da am Iesu y Meseia, Mab Duw, yn dechrau fel hyn. (Beibl.net)

Mae Iesu, nifer o weithiau, yn cyfeirio at bwysigrwydd yr Efengyl, a dyma un ohonynt:

> Fe gyhoeddir yr Efengyl hon am y deyrnas drwy'r byd i gyd fel tystiolaeth i'r holl genhedloedd, ac yna y daw y diwedd. (Mathew 24:14)

Mae pawb ohonom yn bur gyfarwydd â hanes tröedigaeth Saul (Paul wedyn), ac mae'n werth inni gael ein hatgoffa o'r hyn a ddywedIr am y gwaith yr oedd ef i'w gyflawni. Rwy'n dyfynnu'r geiriau a lefarwyd gan Iesu wrth ddisgybl o'r enw Ananias oedd yn byw yn Namascus. Fe gofiwn nad oedd Ananias yn barod iawn i fynd â neges i Saul, gŵr oedd ag enw mor ddrwg gan ddilynwyr Crist. Dyma'r gorchymyn a gafodd Ananias: 'Dos di; dyma'r dyn wyf fi wedi'i ddewis i ddweud amdana i, wrth bobl o genhedloedd eraill a'u brenhinoedd, yn ogystal ac wrth bobl Israel' (Actau 9:15; Beibl.net).

Gwyddom erbyn heddiw fod hyn wedi digwydd, a bod bron pob cenedl wedi clywed yr Efengyl. Enghraifft dda o hyn, wrth gwrs, yw gwaith cenhadon o Gymry, dan nawdd yr Eglwys Bresbyteraidd yng Ngogledd-ddwyrain India. Mae'r enwau Bryniau Khasia, Lwshai a Cachar yn rhai pur gyfarwydd i lawer ohonom hyd heddiw.

Rydym yn mynd i edrych ar beth sydd gan Paul i'w ddweud yn ei lythyr at yr Eglwys yn Rhufain. Mae'n cyflwyno'i hun fel un sydd wedi cael ei ddewis i gyhoeddi neges arbennig, a bod y neges yn cynnwys newyddion da. Dyma sut mae'r llythyr yn dechrau: 'Addawodd Duw'r Efengyl hon ymlaen llaw trwy ei broffwydi yn yr Ysgrythurau sanctaidd. Efengyl am ei Fab; yn nhrefn y cnawd, ganwyd ef yn llinach Dafydd; ond yn nhrefn sanctaidd yr Ysbryd, cyhoeddwyd ef yn Fab Duw, â mawr allu, trwy atgyfodiad o farwolaeth. Dyma Iesu Grist ein Harglwydd.'

Yn nes ymlaen yn ei gyflwyniad fe welir y geiriau yma: 'Nid oes arnaf gywilydd o'r Efengyl, oherwydd gallu Duw yw hi ar waith er iachawdwriaeth i bob un sy'n credu.'

Dweud y mae Paul fod y neges yn dod yn uniongyrchol oddi wrth Dduw, y Tad: bod y neges am ei Fab, sef y Meseia, yr un oedd wedi cael ei chyhoeddi ymlaen llaw trwy'r proffwydi. Duw ei hun sydd ar waith trwy ei Fab.

Rydym yn dechrau gweld beth yw pwrpas yr Efengyl, sef bod Duw wedi penderfynu sicrhau moddion i bob un ohonom ddod i berthynas iawn ag ef ei hun. Mae'n werth aros a chnoi cil ar yr hyn sy'n cael ei ddweud gan Paul yn ei gyflwyniad (Rhufeiniaid 1:1–17).

Wedi cyflwyno'r Efengyl fel newyddion da, mae Paul yn mynd ati i egluro pam y mae arnom angen hynny. Mae'n treulio peth amser (Rhufeiniaid 1:18–3.20) yn disgrifio cyflwr y ddynoliaeth yng ngolwg Duw. Mae'r adran yn cloi drwy bwysleisio nad oes neb yn dod allan o'r prawf hwn â marciau llawn. Mae pob un yn euog. Mae ar bob un angen yr hyn sy'n cael ei gynnig. Nid oes gan unrhyw un yr adnoddau i sicrhau'r iachawdwriaeth angenrheidiol i allu bod mewn perthynas iawn â Duw. Wedi disgrifio'r newyddion drwg, fel petai, mae Paul yn dweud wrthym beth yw'r newyddion da. Ar ôl defnyddio Abraham fel esiampl o sut mae dod i berthynas iawn â Duw, mae Paul yn dweud y gall hynny fod yn wir am unrhyw un sy'n dilyn yr un llwybr: 'Gallwn ni gael perthynas iawn gyda Duw yr un fath, ni sy'n credu yn y Duw gododd ein Harglwydd Iesu yn ôl yn fyw ar ôl iddo farw. Cafodd Iesu ei ladd am ein bod ni wedi troseddu, a chafodd ei godi yn ôl yn fyw er mwyn i ni gael ein derbyn i berthynas iawn gyda Duw' (Rhufeiniaid 4:23–5).

Mae emyn 175 (*Caneuon Ffydd*) yn gymorth inni ddeall pam mae angen yr Efengyl arnom.

*Tom Williams*
*Dinbych*

## Ailagor Canolfan Byd Mary Jones

Mae Byd Mary Jones bellach wedi ailagor. Mae'r ganolfan yn adrodd stori Mary Jones, Thomas Charles a hanes y Beibl yng Nghymru. Camwch yn ôl mewn amser, dilynwch daith Mary, ac archwiliwch beth ddigwyddodd wedyn drwy weithgareddau amlgyfrwng ac arddangosfeydd yn ein hadeilad rhestredig Gradd 2 sydd wedi cael ei ailddatblygu.

Mae ein caffi wedi ei weddnewid yn ddiweddar ac yn cynnig amrywiaeth o ddiodydd poeth, cacennau cartref blasus a chinio ysgafn.

Bydd y ganolfan ar agor o ddydd Mercher tan ddydd Sul, 10am-4pm, tan ddiwedd mis Medi, a'r caffi ar agor drwy gydol y flwyddyn. Yn ystod misoedd y gaeaf bydd modd trefnu ymweliad grŵp o flaen llaw.

Am fwy o wybodaeth neu i drefnu ymweliad, cysylltwch â staff y ganolfan ar 01678 521877 neu rheolwr.canolfan@bydmaryjonesworld.org.uk

Edrychwn ymlaen at eich croesawu!




**Dewch i ymweld â'n canolfan ymwelwyr sydd wedi ennill gwobrau a darganfod stori am Gymraes ifanc a wnaeth newid bywydau miliynau o bobl.**

Wedi'i lleoli ar lan Llyn Tegid, mae'r ganolfan yn adrodd stori Mary Jones trwy arddangosfeydd amlgyfrwng a rhyngweithiol mewn adeilad rhestredig Gradd 2. Gydag ardal bicnic, caffi a maes chwarae i blant, mae Byd Mary Jones yn cynnig amser gwych i blant ac oedolion.

**Byd Mary Jones, Llanycil, Y Bala, Gwynedd, LL23 7YF | bydmaryjonesworld.org.uk**
Cysylltwch ar 01678 521877 Ar agor 7 Mehefin – 30 Medi | Dydd Mercher – Dydd Sul 10 am – 4 pm

@bydmary Byd Mary Jones World

Byd Mary Jones World

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## *‘Llewyrch ei wyneb’*

**Emyn ‘Llawryfon rhowch ar ben’ http://gobaith.cymru/llawryfon-rhowch-ar-ben/**

**Darlleniad Salm 67**

**Gweddi**

Arglwydd, ein dyhead pennaf heddiw yw na fyddet yn delio â ni yn ôl yr hyn yr ydym yn ei haeddu. Bydd yn drugarog wrthym. Yn haeddiant Iesu Grist, yr hwn sydd yn ‘Ie ac yn Amen’ i holl addewidion Duw, bendithia ni gyda ‘llewyrch dy wyneb’. Arglwydd, rydym wedi blino ar deimlo dy fod wedi cuddio dy wyneb oddi wrthym. Nid ydym yn chwilio am ryw fendith er ein lles ein hunain yn unig. Tywallta arnom dy Ysbryd er mwyn i’th enw gael ei ogoneddu. Ein dyhead pennaf yw cael gweld dy ewyllys perffaith yn cael ei gyflawni, fel yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Gweddïwn y byddi’n arwain cenhedloedd y ddaear yn dy gyfiawnder ac y byddwn un ac oll yn cael ein huno yn sain cân a moliant, mewn llawenydd a gorfoledd.

Arglwydd, cyffeswn ein bod fel hil wedi rheibio dy ddaear di, yr hon a roddwyd i’n gofal gennyt. Rho i ninnau weld atalfa ar ryfel, ar newyn, ar anghyfiawnder a thrais. Gweddïwn y bydd dy fendith yn neilltuol ar dy eglwys, drwy dy eglwys, er mwyn y byd. Amen.

**Emyn 66 ‘Trwy ddirgel ffyrdd ‘**

**Darlleniad Genesis 45:1–15 – ‘Poen a llawenydd’**

**Brodyr**

Cyn belled â bod ei frodyr yn meddwl o gwbl am Joseff, caethwas dinod yn yr Aifft ydoedd neu destun sgwrs achlysurol gyda’u tad, Jacob (Israel), am ei dranc. Bu’n rhaid i’r brodyr fyw eu celwydd, celu’r gwir a pharhau â’r twyll ar waethaf tristwch a galar amlwg eu tad. Tybed a wnaethant deimlo unrhyw elfen o *schadenfreude*, rhyw bleser cudd yn nhrybini rhywun arall, wrth iddynt feddwl na ddeuai breuddwydion Joseff am ei statws dyrchafedig yn wir?

Yn ddiarwybod i’w frodyr, symudodd Joseff o fod yn was i Potiffar i fod yn garcharor (ar gam), yn ddehonglwr breuddwydion trulliad, pobydd a Pharo ei hun, cyn iddo gael ei ddyrchafu’n ‘brif weinidog’. Ni wyddent fod yr ‘Arglwydd gyda Joseff’ drwy’r cyfan oll i gyd.

**Pos a datgeliad**

Tybed pam na ddywedodd Joseff wrth ei frodyr pwy ydoedd cyn hyn? Ai dial arnynt a wnaeth?

Onid oedd wedi eu hadnabod ar un waith pan welodd hwy am y tro cyntaf yn prynu grawn? (Genesis 42) Er hyn, mynnodd Joseff eu bod yn profi iddo nad ysbiwyr oeddynt trwy eu gorfodi i adael un ohonynt ar ôl yn yr Aifft (Simeon) hyd nes y deuai ei frawd Benjamin i’w gyrchu.

Clywodd hwy yn trafod ymhlith ei gilydd. Mae’n amlwg bod eu cydwybod euog yn eu blino. Canlyniad cam-drin eu brawd Joseff a’u dygodd i’r fath drybini, meddent wrth ei gilydd (42:21–3). Pam na fyddai wedi datgelu ei hun iddynt bryd hynny?

Ni ddewisodd ddatgelu ei hun iddynt. Yn hytrach, rhoddodd Joseff y taliad a wnaed ganddynt am y grawn yn ôl yn eu sachau. Pan ddychwelsant yr eildro, cuddiodd ei gwpan yng nghanol sachau Benjamin, mynnu ei gadw ar ôl a’u gorfodi i ddychwelyd hebddo at eu tad. Fe’u clywodd yn llawn o dristwch yn ymbil dros ei frawd ac fe’u gwelodd yn galaru wrth iddynt gofio am eu tad ac am yr effaith a gâi ‘colli’ Benjamin arno.

Yn awr daeth y funud briodol iddo ddatgelu i’w frodyr ei fod ef, Joseff, yn ail yn y deyrnas i Pharo ei hun ac yn ‘arglwydd ar ei holl dylwyth a llywodraethwr dros holl wlad yr Aifft’ (adn. 8). Rhywsut, roedd breuddwydion ei lencyndod wedi eu gwireddu!

**Dirgel ffyrdd**

Rhywsut, rhywfodd, trwy ddirgel ffyrdd mae’r Arglwydd Dduw yn dwyn ei waith ymlaen.

Ni ddeallodd na Jacob, na brodyr Joseff, mai oddi wrth yr Arglwydd y daeth ‘breuddwydion’ Joseff. Ni fedrent ddeall bod yr Arglwydd yn ffyddlon i’w addewid ac na fethodd ei air erioed. Diau y bu yna adegau yn hanes Joseff ei hun pan nad oedd amgylchiadau’n ymddangos fel pe baent yn llifo o’i blaid a’i fod efallai yn angof gan yr Arglwydd.

Na, nid ar unwaith y datgelir i unrhyw un ohonom arwyddocâd llwybrau ein taith o ffydd yng nghwmni’r Arglwydd Iesu. Ffydd, fodd bynnag, yw credu Duw: credu ei addewidion, credu yn ei ffyddlondeb ac ymaflyd ynddo, hyd yn oed yn nhywyllwch ein hamheuon.

Ond drwy’r Beibl, o dudalen i dudalen, o alwad Abraham a’r addewid a roed iddo y byddai’r holl fyd yn cael ei fendithio drwy ei ddisgynnydd, adroddir yr hanes am ffyddlondeb yr Arglwydd i’w addewid. Pan oedd yr amser yn aeddfed, daeth Gair yr addewid yn gnawd, yn yr Arglwydd Iesu Grist. Ynddo ef cyflawnir holl amcanion daionus yr Arglwydd i ddwyn y greadigaeth i undod drwyddo (Colosiaid 1:15 ymlaen). Ac nid atelir yr addewid gan anghrediniaeth gyson neu anffyddlondeb parhaus ei bobl, hyd nes i’r gair gael ei gyflawni’n llwyr ac yn hollol, mewn daear newydd, a nef newydd, lle mae cyfiawnder yn cartrefu.

**Joseff ac Iesu**

Fel Joseff, daeth Iesu, ein ‘brawd mawr’, i Aifft ein caethiwed ni, ‘oherwydd anfonodd Duw fi o’ch blaen er mwyn diogelu bywyd’. Drwy’r groes a’r atgyfodiad a thrwy ffydd fywiol ynddo deallwn fod stori fwy yn cael ei hadrodd na’n hamgylchiadau uniongyrchol ni. Iesu yw’r un sy’n Arglwydd ar yr ‘Aifft’ i gyd er ein mwyn (adn. 9), yn Arglwydd dros y cyfan o’n caethiwed ni oll i gyd, yn ddarparwr bara’r bywyd i’r rhai sy’n newynu amdano.

Iesu yw’r un a aeth o’n blaenau ‘i gadw’n fyw o’ch plith nifer mawr o waredigion’. Mor niferus yw niferoedd y dyrfa fawr na allai neb ei rhifo ymhlith tyrfa gadwedig yr Arglwydd.

Ef hefyd, yn ei ddaioni, yw’r un sy’n ein gwahodd i brofi tiriondeb ei ras, rhodd anhaeddiannol Duw. Ein braint ninnau fel ei eglwys yw cael bod yn llais i’w wahoddiad: ‘tyrd i lawr ataf, paid ag oedi dim’ (adn. 9).

Ac yn ei ymwneud tirion â ni, gerbron y byd, carodd ein gwaredwr, ein brawd a’n ceidwad, ei frodyr a’i chwiorydd gymaint nes iddo’u ‘cusanu’ â rhodd ei Ysbryd Glân (adn. 15).

Mor dirion yw ei addewid i bob un ohonom: ‘Cei fyw yn f’ymyl … cynhaliaf di yno’ (adn. 9–10).

Yn ein haddoliad o Sul i Sul, yn ein tystiolaeth iddo ym mhob cwr o’r byd, ‘rhaid ichwi ddweud … am yr holl anrhydedd yr wyf wedi ei gael’.

**Gweddi**

‘Dyro i ni weld o’r newydd mai ti, Arglwydd, yw ein rhan’, ein gobaith, ein nerth i dragwyddoldeb. Amen.

**Emyn 235 ‘Dyrchafer enw Iesu cu’**

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru